OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 No. 797

# Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2022

## RHAN 3

Trosolwg a chraffu

*Dehongli etc.*

**Dehongli'r Rhan hon**

**14.** Yn y Rhan hon—

ystyr "cyngor cyfansoddol" ("*constituent council*") mewn perthynas â chyd-bwyllgor corfforedig yw cyngor cyfansoddol fel y'i nodir yn y rheoliadau o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 sy'n sefydlu'r cyd-bwyllgor corfforedig hwnnw;

mae i "gwybodaeth esempt" ("*exempt information*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 10;

ystyr "gwybodaeth gyfrinachol" ("*confidential information*") yw—

(a) gwybodaeth a roddir i'r cyd-bwyllgor corfforedig gan Weinidogion Cymru o dan delerau (sut bynnag y'u mynegir) sy'n gwahardd datgelu'r wybodaeth i'r cyhoedd, a

(b) gwybodaeth y mae ei datgelu i'r cyhoedd wedi ei wahardd drwy neu o dan unrhyw ddeddfiad neu drwy orchymyn llys,

ac yn y naill achos neu'r llall mae cyfeiriad at y rhwymedigaeth i gyfrinachedd i'w ddehongli yn unol â hynny;

ystyr "is-bwyllgor llywodraethu ac archwilio" ("*governance and audit sub-committee*") mewn perthynas â chyd-bwyllgor corfforedig, yw'r is-bwyllgor o'r enw hwnnw a benodwyd gan y cyd-bwyllgor corfforedig o dan reoliadau o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 sy'n sefydlu'r cyd-bwyllgor corfforedig.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Rhl. 14 mewn grym ar 15.7.2022, gweler **rhl. 1(2)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2022, Croes Bennawd: Dehongli etc..